



# Ysgol Clywedog

SWYDD PENNAETH

PECYN YMGEISIO 2024

Grŵp Cyflog 6 L29 i L35 (£95,545 i £110,681)

Ymweliadau â'r Ysgol: Dydd Mercher 21 ain Chwefror

Dyddiad Cau: Dydd Llun, 4ydd Mawrth, 2024 am 12pm

Dyddiadau'r Cyfweiliadau: Dydd Iau 14eg a dydd Gwener 15fed o Fawrth





Yn Ysgol Clywedog, rydym yn anelu at weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i bob disgybl. Mae dysgu wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym yn ymrwymo i gymell disgyblion i fod yn:

- ddysgwyr llwyddiannus sy'n mwynhau dysgu, cyflawni a gwneud cynnydd
- unigolion mentrus a chreadigol sy'n cyfrannu'n llawn at fywyd a gwaith
- dinasyddion cyfrifol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas ac
- unigolion hyderus a hapus sy'n gallu byw bywydau diogel, iach ac ystyrlon.



## Nodyn croeso gan y Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

### Chwefror 2024

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn swydd Pennaeth Ysgol Clywedog

Mae Ysgol Clywedog yn ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol Wreccsam, ac rydym yn awyddus i gefnogi'r Corff Llywodraethu i benodi ymgeisydd rhagorol i arwain yr ysgol ar ei thaith tuag at welliant. Mae'r ysgol wedi'i rhoi dan Fesurau Arbennig ar hyn o bryd, ond mae cynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion yn arolwg diweddaraf Estyn. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn gallu dangos eu bod yn ymrwymo i ddarparu addysgu, dysgu a chefnogaeth o ansawdd uchel i bob disgybl, mewn amgylchedd cynhwysol a fydd yn eu galluogi i gyflawni llwyddiant unigol.

Mae Awdurdod Lleol Wreccsam yn ymrwymo i werthoedd gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig felly bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn a gweithio o fewn diwylliant ac ethos sy'n datblygu. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n agos gyda Swyddogion yr Awdurdodau Lleol a swyddogion o'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE), i sicrhau bod y gwelliannau'n parhau i gael eu cynnal yn ddi-oed.

Mae'n gyfle cyffrous i rywun sydd wirioneddol yn dymuno gwneud gwahaniaeth i fywydau plant o fewn cymuned yr ysgol a gweithio mewn amgylchedd lle mae disgyblion a gweithwyr proffesiynol yn cael eu cefnogi i rannu'r un uchelgeisiau ac ymrwymiad i ddarparu canlyniadau o ansawdd uchel. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn eich cais.

Yn gywir,

Karen Evans

Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar / Chief Officer Education & Early Intervention

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Wrexham County Borough Council

**Paula Wood, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

Ysgol Clywedog

Ffordd Rhuthun

Wrecsam

LL13 7UB

Chwefror 2024

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn swydd Pennaeth Ysgol Clywedog. Mae corff llywodraethu'r ysgol am benodi arweinydd sefydledig a chefnogol sydd ag addysg a lles pobl ifanc yn ganolog. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arweinydd addysg rhagorol a fydd yn sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei lawn botensial trwy amgylchedd dysgu cadarnhaol a meithringar.

Rydym yn hynod falch o'n disgyblion ac yn disgwyl yr addysg orau ar eu cyfer, un sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer eu dyfodol. Mae ein corff staff yn hynod o dalentog; maen nhw'n weithgar, yn ymroddedig ac yn poeni'n fawr am ein cenhedlaeth yn y dyfodol. Mae gennym fwrdd llywodraethwyr cryf sydd â'r profiad a'r set sgiliau arbenigol i gefnogi'r ysgol. Rydym i gyd yn credu bod Ysgol Clywedog ar y trywydd iawn i ddod yn ysgol wych, un y mae ein disgyblion a'n cymuned yn ei haeddu.

Os hoffech wneud apwyntiad am sgwrs anffurfiol am y swydd neu os hoffech ymweld â'r ysgol cysylltwch. Miss K Stacey, Cynorthwy-ydd Personol y Pennaeth, Ffon: 01978 346800 or ebost: [Kelly.stacey@clywedog.org](mailto:Kelly.stacey@clywedog.org).

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais maes o law.

Yr eiddoch yn gywir,

Paula Wood

Cadeirydd y Llywodraethwyr

## LLE I FYW A GWEITHIO

### Lle i Fyw a Gweithio

Mae Bwrdeistref Sirol Wreccsam, sydd wedi'i lleoli yng Nogledd Ddwyrain Cymru, yn falch iawn o'i threftadaeth Gymraeg ac yn dathlu ei hunaniaeth ddiwylliannol. Ei chanolbwynt yw dinas Wreccsam – dinas fwyaf Gogledd Cymru – sy'n gorwedd yn Nyffryn Dyfrdwy rhwng mynyddoedd Cymru a gwastadoedd Swydd Gaer. Mae'n lleoliad sydd wir yn cynnig y gorau o'r ddau fyd.

### Yr hen a'r newydd

Mae dinas Wreccsam wedi bod yn ganolfan farchnad ers y cyfnod canoloesol, yn bell cyn iddi ddod i'r amlwg yn hwyr yn y ddeunawfed ganrif yn sgil y Chwyldro Diwydiannol. Mae Wreccsam wedi llwyddo i gadw awyrgylch dinas hanesyddol a chael budd hefyd o ganolfan siopa fodern ddi-draffig, a chanolfan o fri i'r celfyddydau, diwylliant a marchnadoedd, Tŷ Pawb a agorodd ym mis Ebrill 2018. Mae'r ganolfan hon yn ychwanegu at ein harlwy dreftadaeth gan gynnwys amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol. Rydym yn falch o'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO – Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte – sy'n denu miloedd o ymwelwyr o bob cwr o'r byd bob blwyddyn. Yn ogystal â dau eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thri o saith rhyfeddod Cymru.

Mae gan Wreccsam enw da hefyd am gynnal digwyddiadau ar raddfa fawr, o gemau Cwpan y Byd Cynghrair Rygbi i gyngherddau pop awyr agored. Mae gan Wreccsam Brifysgol fawr, Amgueddfa a chyfleusterau chwaraeon gwych – mae'n lle sy'n edrych i'r dyfodol.




## DINAS SYDD YNG NGHANOL Y CORY

Gall Wrecsam ddarparu'r lleoliad perffaith i ba bynnag ffordd o fyw sy'n apelio atoch.

Ar y naill llaw, mae digon o gefn gwlad i'w archwilio. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn gartref i Warchodfa Natur Genedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac 11 parc gwledig. Mae tirlun Gogledd Ddwyrain Cymru yn ddeniadol iawn ac rydych chi o fewn tua ugain munud i heddwch a thawelwch bryniau Cymru.



Ar y llaw arall, mewn llai nag awr, gallwch gyrraedd dwy o ddinasoedd mwyaf Ewrop – Manceinion a Lerpwl – gyda'u cymysgedd rhyngwladol o ddiwylliant, bywyd nos, siopau a chyfleusterau. Mae Wrecsam yn ganolfan fasnachol fywiog gydag un o Stadau Diwydiannol mwyaf Ewrop yn gartref i enwau mawr fel JCB, Kelloggs, Gyda mynediad hwylus i'r rhwydwaith traffyrdd, nid ydym yn bell o sawl maes awyr a phorthladd, felly mae teithio i rannau eraill o'r DU neu'n bellach yn hawdd hefyd.



## CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR: PAULA WOOD

**STATWS:** Ysgol Uwchradd Gyfun Awdurdod Lleol (Cymysg)

**IAITH:** Cyfrwng Saesneg

**NIFER AR Y GOFRESTR:** 830

**YSTOD OEDRAN:** 11-16 oed

## GWYBODAETH AM YR YSGOL

Mae Ysgol Clywedog yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i rai 11-16 oed ac yn cael ei chynnal gan Awdurdod Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng ngorllewin Wrecsam ac yn gwasanaethu pentrefi yng ngogledd a gorllewin y dref yn ogystal â'r dref ei hun. Ym mis Medi 2023, roedd oddeutu 28.1% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi'i rhoi dan Fesurau Arbennig ar hyn o bryd, ond mae cynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion yn arolwg diweddaraf Estyn.

## DATGANIAD CENHADAETH

Yn Ysgol Clywedog, rydym yn anelu at weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i bob disgybl. Mae dysgu wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym yn ymrwymo i gymell disgyblion i fod yn:

- ddysgwyr llwyddiannus sy'n mwynhau dysgu, cyflawni a gwneud cynnydd
- unigolion mentrus a chreadigol sy'n cyfrannu'n llawn at fywyd a gwaith
- dinasyddion cyfrifol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas ac
- unigolion hyderus a hapus sy'n gallu byw bywydau diogel, iach ac ystyrlon

## ARWYDDAIR EIN HYSGOL YW "Byddwch y gorau y gallwch chi fod"

### EIN GWERTHOEDD YW "Barod, Parchus, Cyfrifol"

- **BAROD:** Bod wedi gorffwys yn dda, gwisgo'n drwsiadus, wedi'ch arfogi i ddysgu, ag agwedd gadarnhaol at lwyddo a chyflawni
- **PARCH:** Parchu eich hun ac eraill, cefnogi'r ysgol a'i gilydd, bod yn garedig a meddylgar
- **CYFRIFOL:** Gwerthfawrogi addysg, dilyn rheolau synhwyrol sydd er lles pawb, achub ar gyfleoedd pan ddônt, a bod yn ddiogel bob amser

## AMGYLCHEDD YR YSGOL

Mae gan ein hysgol adeiladau modern ag offer da ac erwau o gyfleusterau chwaraeon a hamdden sy'n creu lle cyfforddus i ddysgu. Gan eistedd yn agos at lannau Afon Clywedog, gan bwy y cymerwn ein henw, a gyda golygfeydd di-dor o Fryniau Clwyd, mae gan ein myfyrwyr y palet naturiol delfrydol i fwydo eu dychymyg.

Mae Ysgol Clywedog wedi'i lleoli ar gyrion Wrecsam, ymhell o wrthdyniadau'r dref brysur, felly mae ein pobl ifanc yn elwa o leoliad syfrdanol, heddychlon i astudio ynddo. Maent yn mwynhau'r amgylchedd tawel, ffocws sy'n helpu i ysbrydoli meddyliau ifanc i gyflawni eu nodau. Yr amgylchedd hyfryd yn Ysgol Clywedog sy'n gwneud ein hysgol yn unigryw.

## STRWYTHUR ARWAIN A RHEOLI

Yn Ysgol Clywedog, rydym yn ymfalchïo yn y gofal a ddarperir i bob un o'n disgyblion. Mae strwythur tîm arwain presennol yr ysgol yn cynnwys y Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, pedwar Pennaeth Cynorthwyol a Rheolwr Busnes.

## STRWYTHUR BUGEILIOL

Mae gennym strwythur cymorth bugeiliol cryf iawn ar waith. Mae gennym ni 5 pennaeth blwyddyn addysgu sy'n cael eu cynorthwyo gan arweinwyr bugeiliol cynorthwyol. Mae pob Pennaeth blwyddyn yn rheoli tîm o diwtoriaid dosbarth sy'n bwynt cyswllt cyntaf i rieni a myfyrwyr fel ei gilydd. Mae ein hyb cymorth i Fyfyrwyr yn cael ei redeg gan dîm ymroddedig sy'n monitro pob agwedd ar fywyd myfyriwr o bresenoldeb ac ymddygiad i anogaeth a chefnogaeth i unrhyw fyfyriwr sydd ei angen.

## CWRICWLWM

Rydym yn ymrwymo i ddatblygu'r cwricwlwm yn seiliedig ar egwyddorion a dyheadau Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod cynnig y Cwricwlwm yn gynhwysol ac yn cefnogi ac ymgysylltu â phob dysgwr yn briodol, i gyflawni lefel unigol o lwyddiant, sy'n gymesur â gallu, doniau ac uchelgais.

Fodd bynnag, mae ein cwricwlwm yn Ysgol Clywedog yn cynnwys llawer mwy na'r gwersi y mae myfyrwyr yn eu mwynhau bob dydd. Mae clybiau a gweithgareddau yn ffurfio'r rhaglen allgyrsiol sy'n chwarae rhan bwysig yn addysg pobl ifanc. Mae gan ein myfyrwyr fynediad i ystod eang o ddarpariaeth sy'n cynnwys clybiau pwnc, chwaraeon a gweithgareddau, gan gynnwys gemau a chystadlaethau lleol a rhanbarthol. Rydym yn annog cymaint o fyfyrwyr â phosibl i gymryd rhan yn y rhaglen ac i rannu yn y llwyddiant y mae'r gweithgareddau hyn yn ei ddarparu.

## ALLGYRSIOL

Mae ein hysgol wedi ei lleoli mewn tiroedd hardd gyda golygfa glir o gefndir hyfryd Bryniau Clywydian. Wedi'n bendithio â digonedd o fannau gwyrdd, cyfleusterau chwaraeon a seilwaith TGCh mawr, gallwn gynnig amgylchedd modern lle gall myfyrwyr ddysgu, datblygu a ffynnu.

Mae'r ysgol yn falch o gynnig cyfleusterau i ddatblygu talentau mewn Celf, Cerddoriaeth, Drama a Chwaraeon, gan gynnwys cae 4G maint llawn y Gymdeithas Bêl-droed. Rydym hefyd yn ffodus i gael canolfan hamdden a phwll nofio gwres 25m sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth yn ystod y diwrnod ysgol ond hefyd ar gyfer y gymuned fin nos.

## Y GYMUNED

Mae Tasglu Eco Ysgol Clywedog, a ddechreuwyd yn 2019 gan fyfyrwyr yr ysgol, yn anelu at effeithio a gwella'r amgylchedd lleol a byd-eang. Hyd yn hyn mae'r grŵp wedi plannu dros 250 o goed brîd brodorol a phrin, wedi creu rhandir sy'n darparu ffrwythau a llysiau i deuluoedd sydd angen cymorth, wedi gweithio gydag ysgolion yn Libanus a Melilla i wneud fideos addysgol ac wedi'u cyflwyno i'r Cyngor Prydeinig a sgwrs TEDx. Teithiodd rhai aelodau o'r grŵp hyd yn oed i Tanzania i helpu i adeiladu ysgolion a gweithio ar brosiect adfer Coral Reef. Yn ddiweddar derbyniodd y grŵp wenyntfa newydd a byddant yn casglu eu mêl lleol cyntaf eleni

## CYFLWYNIAD

**Swydd:** Pennaeth

**Yn atebol i:** Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam a'r Corff Llywodraethu

**Budd-ddeiliad:** Disgyblion, Staff, Llywodraethwyr, Rhieni, Gofalwyr, Awdurdod Lleol, Ysgolion Clwstwr, Ysgolion Uwchradd Wreccsam, Busnesau, Darparwyr Addysg Ôl-16.

Mae'r swydd ddisgrifiad yn ategu at y safonau a'r gwerthoedd a nodir yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Dysgu ac Arweinyddiaeth ar gyfer Pennaethiaid fel yr amlinellir yn Nogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

## PWRPAS Y SWYDD

Bydd y Pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth ragorol i Ysgol Clywedog, ac yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE) a budd-ddeiliaid er mwyn creu amgylchedd addysg sy'n ysgogi, cefnogi a meithrin disgyblion i'w galluogi i gyflawni eu potensial llawn.

## 1. CYFEIRIAD STRATEGOL

- 1.1 Darparu arweinyddiaeth bwrpasol i ysbrydoli staff a disgyblion.
- 1.2 Bod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu gweledigaeth a rannir a chynllun gwella strategol ar gyfer Ysgol Clywedog, gan weithio mewn partneriaeth gyda phob budd-ddeiliad.
- 1.3 Bod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaethau, strwythurau a systemau, gyda holl fudd-ddeiliaid yr ysgol, i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol tuag at wireddu gweledigaeth yr ysgol a chyflawni gwelliant parhaus yn yr ysgol.
- 1.4 Gweithio mewn partneriaeth gyda'r corff llywodraethu, staff a rhieni i gynnal yr ethos a'r gwerthoedd sy'n sail i'r ysgol.
- 1.5 Cymell a gweithio gydag eraill i greu a chynnal ethos ysgol ac amgylchedd dysgu sy'n cefnogi dysgu effeithiol.
- 1.6 Dangos y weledigaeth a'r gwerthoedd mewn gwaith ac arferion bob dydd.
- 1.7 Adolygu, datblygu, gweithredu, monitro gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yr ysgol drwy gynlluniau perthnasol (e.e. cynllun gwella strategol, cynllun gweithredu yn dilyn arolwg) i sicrhau gwelliant parhaus i'r ysgol.
- 1.8 Monitro, gwerthuso ac adolygu, mewn cydweithrediad â'r corff llywodraethu, ystod, ansawdd ac effaith polisiau, blaenoriaethau a chynnydd yn erbyn cynllun gwella strategol yr ysgol.
- 1.9 Sicrhau bod prosesau rheoli, cyllid, trefnu a gweinyddu'r ysgol yn cefnogi ei gweledigaeth a'i nodau.
- 1.10 Sicrhau bod polisiau ac arferion yr ysgol yn cymryd gofynion cenedlaethol a lleol i ystyriaeth.
- 1.11 Sicrhau bod pawb sydd ynghlwm â'r ysgol yn ymrwymo i'w nodau, yn cael eu cymell i'w cyflawni nhw, ac yn helpu i fodloni amcanion a thargedau hirdymor, tymor canolig a thymor byr i sicrhau llwyddiant addysgol yr ysgol.

## 2. ADDYSGEG

- 2.1 Bod yn gyfrifol am gefnogi addysgeg eraill drwy greu a chynnal amodau i wireddu'r pedwar diben i ddysgwyr a gwneud ein gorau i gefnogi eu lles, safonau a chynnydd.
- 2.2 Sicrhau trefniadaeth a darpariaeth y cwricwlwm a gweithredu ystod o ddulliau addysgeg o fewn yr ysgol, i gefnogi dysgu ac addysgu o ansawdd uchel a darpariaeth y cwricwlwm yng Nghymru.
- 2.3 Bod yn gyfrifol am ddatblygu polisiau ac arferion, mewn cydweithrediad â budd-ddeiliaid perthnasol, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ac yn datblygu sgiliau dwyieithog dysgwyr fel sy'n briodol.
- 2.4 Galluogi i'r pedwar diben ar gyfer dysgu gael eu datblygu drwy greu strwythurau a systemau sy'n cefnogi cynlluniau ac yn pwysleisio'r disgyblaethau gwahanol feysydd dysgu mewn cyd-destun, i sicrhau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.
- 2.5 Datblygu a gweithredu systemau effeithiol i fonitro a gwerthuso effaith profiadau dysgu a chynnydd dysgwyr er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy.
- 2.6 Arddangos atebolrwydd am les a chanlyniadau dysgwyr gan weithio gyda phob budd-ddeiliad perthnasol i sicrhau bod lles a chyflawniad pob dysgwr yn cael eu gwerthfawrogi ac yn amlwg ar draws yr ysgol.
- 2.7 Datblygu a mynegi cofnod ystyrllon, dealladwy a chyson o berfformiad yr ysgol, i ystod o bartneriaid, gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr, gan sicrhau bod hyn yn ymgorffori lles a chynnydd dysgwyr.
- 2.8 Rheoli cyfathrebu a gweithrediad effeithiol mewn perthynas ag argymhellion mewn adroddiadau, gan gynnwys canlyniadau hunanwerthuso gan yr ysgol, arolwg allanol gan Estyn, er mwyn gyrru a chynnal gwelliannau i'r ysgol.
- 2.9 Datblygu a chynnal cysylltiadau effeithiol gyda'r gymuned gan gynnwys busnesau a diwydiant, ymestyn y cwricwlwm, cyfoethogi'r ysgol a'i gwerthoedd i'r gymuned ehangach.
- 2.10 Cyfrannu at ddatblygu'r system addysg drwy rannu arferion effeithiol, gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill a hyrwyddo mentrau arloesol.

## 3. CYNHWYSIANT

- 3.1 Hyrwyddo a sicrhau ecwiti mewn llwybrau dysgu academiaidd, galwedigaethol ac arbrofol.
- 3.2 Sicrhau ffocws cyson, parhaus a chynhwysol ar draws yr ysgol ar les, profiad a chyflawniad dysgwyr, gan sefydlu diwylliant sy'n gwerthfawrogi barn dysgwyr er mwyn llywio pob cam o ddysgu a phrofiad ysgol.
- 3.3 Datblygu strategaethau, strwythurau, polisiau a systemau cynhwysol, gan gydweithio gyda budd-ddeiliaid perthnasol sy'n galluogi pob dysgwr i gael mynediad llawn at gyfleoedd i gyflawni a sicrhau bod eu hanghenion dysgu unigol yn cael eu bodloni.

- 3.4 Cydweithio gyda holl fudd-ddeiliaid yr ysgol i adeiladu hinsawdd ysgol a diwylliant o ddysgu a fydd yn ystyried cyfoeth ac amrywiaeth cymuned yr ysgol gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- 3.5 Datblygu a chynnal diwylliant o gynhwysiant a disgwyliadau uchel i bob myfyriwr.
- 3.6 Sefydlu gweledigaeth ar gyfer y Ddarpariaeth ADY, sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i wella cyflawniad disgyblion.
- 3.7 Sicrhau bod disgyblion yn pontio rhwng lleoliadau addysg, astudiaethau pellach neu gyflogaeth, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth yn briodol rhwng lleoliadau addysg am ADY y dysgwr.
- 3.8 Hyrwyddo cynhwysiant dysgwyr yn yr ysgol a sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad at gwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol y lleoliad.
- 3.9 Monitro'r ddarpariaeth ar gyfer dosbarthiadau ADY prif ffrwd gan sicrhau bod eu cwricwlwm yn addas ar gyfer cynnydd a llwybrau disgyblion
- 3.10 Sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu dynodi a'u bodloni, bod eu hannibyniaeth yn cael ei annog a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud cynnydd da a chyflawni eu potensial llawn.

## 4. ADDYSGU A DYSGU

- 4.1 Cyflwyno a mynegi disgwyliadau uchel, a gosod targedau uchelgeisiol i bob disgybl.
- 4.2 Annog diwylliant o her a chefnogaeth sy'n galluogi disgyblion i gymryd rhan yn eu haddysg a'u galluogi i gyflawni eu potensial llawn.
- 4.3 Sicrhau bod disgyblion yn datblygu sgiliau astudio er mwyn sicrhau dysgu mwy effeithiol gyda rhagor o annibyniaeth.
- 4.4 Creu a chynnal amgylchedd sy'n hyrwyddo ac yn sicrhau addysgu rhagorol, dysgu effeithiol, a chyflawniad ac ymddygiad o ansawdd uchel.
- 4.5 Dynodi, trefnu, gweithredu a monitro'r cwricwlwm a'i asesiad i sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni.
- 4.6 Darparu cwricwlwm sydd nid yn unig yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr, ond sydd hefyd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu fel unigolion hyderus, galluog a chyfrifol.
- 4.7 Dynodi, trefnu a gweithredu polisi ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol a moesol disgyblion.
- 4.8 Monitro a gwerthuso ansawdd addysgu a dysgu a safonau cyflawniad pob disgybl yn yr ysgol drwy ddulliau priodol, gan ddefnyddio mecanwaith effeithiol i herio tangyflawniad ar bob lefel, a sicrhau camau unioni a champau dilynol.
- 4.9 Pennu a gweithredu polisiâu cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle a mynediad cyfartal.
- 4.10 Pennu a gweithredu strategaethau cadarn sy'n sicrhau ymddygiad a disgyblaeth rhagorol ymhlith disgyblion ac yn cefnogi a chynnig canllawiau clir ar waharddiadau.
- 4.11 Hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol yn unol â nodau addysgol yr ysgol.

## 5. ARWEINYDDIAETH A RHEOLI

- 5.1 Datblygu a chynnal diwylliant o ddisgwyliadau uchel o'ch hunan ac eraill.
- 5.2 Datblygu diwylliant sy'n cefnogi twf ac arweinyddiaeth ar bob lefel drwy ddatblygu a meithrin y potensial i arwain mewn eraill, a chyfrannu at y cyfleoedd sydd ar gael, i adeiladu ar allu arweinyddiaeth yr ysgol.
- 5.3 Cynllunio, dyrannu, cefnogi a gwerthuso gwaith a gwblhawyd gan grwpiau, timau ac unigolion, gan sicrhau bod tasgau'n cael eu dirprwyo a chyfrifoldebau'n cael eu datganoli mewn modd sy'n gyson ag amodau cyflogaeth.
- 5.4 Gweithredu a chynnal systemau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff, ymgorffori rheolaeth perfformiad a gosod targedau, gan gymryd camau priodol lle bo perfformiad neu bresenoldeb yn anfoddhaol.
- 5.5 Hyrwyddo a monitro datblygiad proffesiynol parhaus i staff, gan gynnwys cyflwyno athrawon newydd gymhwyso.
- 5.6 Sicrhau bod dyletswyddau proffesiynol yn cael eu cyflawni, fel yr amlinellir yn Nhelerau ac Amodau Gwasanaeth athrawon, gan gynnwys y pennaeth.
- 5.7 Cymryd rhan yn y trefniadau a wneir yn unol â'r rheoliadau ar gyfer rheoli perfformiad ac asesiadau trothwy, a chymryd rhan yn y broses o nodi meysydd ble byddai'r pennaeth yn elwa o hyfforddiant pellach a chwblhau unrhyw hyfforddiant gofynnol.
- 5.8 Sicrhau dysgu proffesiynol cynaliadwy a phwrpasol i bob aelod o staff, gan gynnwys eich hunan, gan fframio twf proffesiynol o fewn arferion addysgeg a phrofiadau a chanlyniadau dysgwyr.
- 5.9 Sicrhau bod dirprwy bennaeth neu unigolyn addas arall yn gyfrifol am swyddogaethau'r pennaeth yn ystod unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r ysgol.
- 5.10 Datblygu strategaethau i hyrwyddo partneriaethau gwaith rhagorol gyda llywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni/gofalwyr a'r gymuned.

## 6. DOSBARTHU STAFF AC ADNODDAU'N EFFEITHIOL

- 6.1 Gweithio gyda llywodraethwyr a chydweithwyr uwch i recriwtio a chadw staff o safon.
- 6.2 Gwneud trefniadau ar gyfer goruchwyllo a diogelu adeiladau'r ysgol, ei chynnwys a'i thiroedd yn effeithiol.
- 6.3 Gosod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwariant, dyrannu cyllid a gweinyddu a rheoli'n effeithiol, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a'r corff llywodraethu.
- 6.4 Rheoli a threfnu gofod yn effeithiol i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y cwricwlwm, defnydd y gymuned a rheoliadau iechyd a diogelwch ac unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol eraill.
- 6.5 Gweithio gyda chydweithwyr i adleoli a datblygu pob aelod o staff yn effeithiol er mwyn cynnal a gwella ansawdd yr addysg a ddarperir.

- 6.6 Rheoli, monitro ac adolygu'r ystod, ansawdd a'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn gwella ansawdd addysg, gwella cyflawniadau disgyblion, a sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian.
- 6.7 Sicrhau bod cyfrifoldebau staff unigol yn cael eu diffinio, eu deall, eu cytuno, eu hadolygu a'u monitro'n glir.

## 7. ATEBOLRWYDD

- 7.1 Sicrhau bod disgyblion yn elwa o ddysgu ac addysgu o safon uchel.
- 7.2 Datblygu a chynnal sefydliad lle mae pob aelod o staff yn cydnabod eu bod yn gyfrifol am lwyddiant yr ysgol.
- 7.3 Cadw cofnod cydlynol a chywir o berfformiad yr ysgol mewn modd sy'n briodol i'r ystod o gynulleidfaoedd, gan gynnwys llywodraethwyr, yr Awdurdod Lleol, GwE, y gymuned leol, Estyn ac eraill i'w galluogi i chwarae eu rhan yn effeithiol.
- 7.4 Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r cwricwlwm, cyflawniad a chynnydd ac am y cyfraniad y gallan nhw ei wneud i gefnogi addysg eu plentyn a helpu'r ysgol i gyflawni targedau gwella.
- 7.5 Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gwrthrychol i'r Corff Llywodraethu er mwyn ei alluogi i fodloni ei gyfrifoldebau i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol a gwella safonau cyflawniad, ac i gyflawni effeithlonrwydd a gwerth am arian.
- 7.6 Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau fel sy'n ofynnol ac o fewn rheswm gan y Corff Llywodraethu.

## 8. DIOGELU

- 8.1 Mae Ysgol Clywedog wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc a chyflawni pob gofyniad cyfreithiol perthnasol, ac mae disgwyl i staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Dylid darllen y swydd ddisgrifiad hwn ochr yn ochr â'r ystod o ddyletswyddau proffesiynol Athrawon ac Arweinwyr Ysgolion ac fel y nodir yn Rhan 10 o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon. Disgwylir i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau yn unol â safonau ysgolion proffesiynol ar gyfer athrawon cymwys a chynnal cod proffesiynol Cyngor Lles Addysg Cymru.



## Manylion Am Yr Unigolyn – Swydd y Pennaeth

### ADRAN 1 – Cymwysterau a gofynion

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol	Modd Asesu:
1.1 Statws athro cymwysedig	*		FfG
1.2 Pennaeth presennol neu gymhwyster CPCP	*		FfG
1.3 Profiad addysgu llwyddiannus sylweddol	*		FfG / G
1.4 Profiad uwch arweinyddiaeth llwyddiannus gyda thystiolaeth o godi safonau	*		FfG / C / G
1.5 Profiad eang mewn nifer o ysgolion a/neu rolau amrywiol		*	FfG / G
1.6 Profiad blaenorol llwyddiannus fel Pennaeth		*	FfG / G

### ADRAN 2 - Profiad a Gwybodaeth Broffesiynol

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol	Modd Asesu:
2.1 Tystiolaeth o reolaeth strategol, ariannol ac adnoddol effeithiol	*		FfG / G
2.2 Tystiolaeth o gyfathrebu cryf i godi safonau yn y swydd bresennol	*		FfG / G
2.3 Gwybodaeth dda am Fframwaith Arolygu Estyn, neu gyfwerth.	*		FfG / C
2.4 Profiad fel arolygwr Estyn neu gyfwerth		*	FfG / C
2.5 Profiad o arwain ysgol drwy arolwg diweddar llwyddiannus		*	FfG / C
2.6 Dealltwriaeth glir o ddatblygiad staff a rôl Rheoli Perfformiad o ran codi safonau.	*		FfG / C
2.7 Dealltwriaeth dda o'r cwricwlwm uwchradd yng Nghymru a'i ddatblygiad i'r dyfodol	*		FfG / C

### ADRAN 3 –Doniau, nodweddion a sgiliau personol

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol	Modd Asesu:
3.1 Gallu cynllunio'n strategol i ddarparu gweledigaeth, ethos a blaenoriaethau'r ysgol	*		FfG / C
3.2 Gallu arwain, dylanwadu a rheoli newid	*		FfG / C
3.3 Gallu cyfathrebu, ysbrydoli a chymell staff, disgyblion a rheini gan ddefnyddio sgiliau rhyngpersonol ardderchog	*		FfG / C / G
3.4 Rhagweithiol, arloesol a hyblyg gyda lefelau uchel o wytnwch ac uniondeb.	*		FfG / C / G
3.5 Gallu myfyrio ar arferion a rheoli datblygiad personol eich hunan.	*		FfG / C
3.6 Ymrwymiad i hyrwyddo ethos yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.	*		FfG / C



## Manylion Am Yr Unigolyn – Swydd y Pennaeth

### ADRAN 4 - Arweinyddiaeth a Rheoli

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol	Modd Asesu:
4.1 Model rôl proffil uchel gyda phresenoldeb amlwg sy'n hawlio parch	*		FfG / C
4.2 Profiad o gydweithio gyda Chorff Llywodraethu	*		FfG / C
4.3 Profiad helaeth o wella ymddygiad a phresenoldeb disgyblion	*		FfG / C
4.4 Gwybodaeth fanwl am ganllawiau diogelu	*		FfG / C
4.5 Profiad o, ac ymrwymiad i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer gweithio gyda'r gymuned ehangach	*		FfG / C / G
4.6 Ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol	*		FfG / C
4.7 Profiad o weithio gydag ysgolion eraill ac ymrwymiad i gydweithio	*		FfG / C
4.8 Profiad sylweddol o ddefnyddio cynlluniau gwella'r ysgol i gael effaith sylweddol ar safonau	*		FfG / C

### ADRAN 5 - Arwain Dysgu ac Addysgu

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol	Modd Asesu:
5.1 Gallu datblygu a chynnal perthnasau gwaith cryf	*		FfG / C
5.2 Gallu monitro, gwerthuso a gwella perfformiad gan gynnal cymhelliant staff	*		FfG / C
5.3 Profiad o ddatblygu ac arwain mentrau cwricwlwm.	*		FfG / C
5.4 Ymrwymiad i addysg cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y disgybl	*		FfG / C
5.5 Profiad o hyrwyddo rôl rheini yn addysg eu plant	*		FfG / C

### ADRAN 6 - Sicrhau Atebolrwydd

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol	Modd Asesu:
6.1 Profiad o reoli adolygiadau mewnol ac allanol trylwyr	*		FfG / C
6.2 Profiad o sicrhau canlyniadau gwell drwy weithio gyda Chyrff Llywodraethu	*		FfG / C
6.3 Profiad o weithio'n llwyddiannus gyda gweithiwr gwella ysgolion proffesiynol neu unigolyn tebyg i godi safonau	*		FfG / C

FfG: Ffurflen Gais/Llythyr Cais

C: Cyfweiliad

G: Geirda



I wneud cais ewch i:

Os hoffech ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â:

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Paula Wood

Ebost: [paula.wood@clywedog.org](mailto:paula.wood@clywedog.org)

Swyddog Uwchradd Awdurdod Lleol Wrexham: Rachael Southwell

Ebost: [Rachael.southwell@wrexham.gov.uk](mailto:Rachael.southwell@wrexham.gov.uk)

Ffôn: 01978 295457 | 07880 462107